



ACHREDU
AMGUEDDFEYDD

MUSEUM
ACCREDITATION

Cynllun Achredu ar gyfer Amgueddfeydd
ac Oriolau yn y Deyrnas Unedig:

Trefniadau Cyfansoddiadol a Llywodraethu Amgueddfeydd

Canllawiau ategol

Paratowyd gan Dawn Langley, Alchemy Research & Consultancy
Comisiynwyd gan ACE ar ran UK Accreditation Partnership
Tachwedd 2018

Cynnwys

Achredu – Canllawiau Cyfansoddiadol	3
1. Defnyddio'r canllawiau hyn	3
2. Trefn y canllawiau	4
3. Cefndir	4
4. Diben	4
5. Cwmpas	5
6. Sail y Safon Achredu	5
7. Materion allweddol wrth benderfynu ar Statws Achredu	8
Casgliadau	8
Dogfen lywodraethu	9
Sefydliadau elusennol	9
Endidau cyfansoddiadol eraill	10
Rheolaeth	10
Budd cyhoeddus	11
8. Endidau anghymwys	11
9. Newid sylweddol	13
Camau i'w cymryd wrth ddirwyn i ben neu gau – Cwmni Elusennol	13
10. Achredu Amgueddfeydd: Opsiynau cyfansoddiadol cymwys ac anghymwys	14
Atodiadau	15
Atodiad Un: Canllawiau ac Adnoddau	15
Atodiad Dau: Diffiniadau cyfreithiol o Fudd Cyhoeddus	16
Atodiad tri: Rhestr eirfa	22

Achredu – Canllawiau Cyfansoddiadol

1 Defnyddio'r canllawiau hyn:

Nod y canllawiau hyn yw rhoi trosolwg o'r prif ofynion cyfansoddiadol sy'n cael eu hystyried yn dderbyniol er mwyn ennill statws amgueddfa achrededig. Mae'n cyflwyno canllawiau cyffredinol ar y ffurfiau cyfreithiol y teimlir sy'n darparu'r cyfle gorau i reoli amgueddfeydd yn gadarn, cyflwyno budd i'r cyhoedd a diogelu eu casgliadau a'u hasedau. Mae'r canllawiau hefyd yn amlinellu'r trefniadau cyfansoddiadol hynny nad ydynt yn gymwys am achrediad.

Os oes gan eich sefydliad gyfansoddiadol yn barod, bydd yn rhoi amlinelliad o'r gofynion sydd angen eu rhoi ar waith fel rhan o'r broses achredu. Os ydych chi'n newid endid cyffredol neu'n ystyried trefniadau cyfansoddiadol ar gyfer endid newydd, bydd yn rhoi trosolwg i chi o'r materion allweddol sydd angen mynd i'r afael â nhw os byddwch chi'n mynd ati i geisio cael achrediad.

Mae'r canllawiau hyn yn cymryd nad oes gennych chi unrhyw wybodaeth arbenigol am y prosesau a'r termau cyfreithiol, ac wedi'u cynllunio i helpu cyrff llywodraethu sy'n gwarchod y casgliadau ac asedau perthnasol eraill yr amgueddfa. Mae'n faes cymhleth ac felly, nid yw pob posibilrwydd wedi'u cynnwys yma. Os nad ydych chi'n gwbl glir lle mae'ch sefydliad yn ffitio yn hyn oll, gofynnwch am gyngor.

Canllawiau cyffredinol yw'r rhain, felly peidiwch â'u defnyddio yn lle canllawiau arbenigol, yn enwedig canllawiau cyfreithiol, mewn perthynas â threfniadau cyfansoddiadol ar gyfer amgueddfeydd unigol. Mae'r canllawiau'n ymwneud yn benodol ag achredu amgueddfeydd, ac ni ddylech eu darllen fel cyfarwyddyd ar yr endid cyfansoddiadol 'gorau' – rhaid i chi benderfynu drosoch eich hun beth yw'r trefniant cyfansoddiadol mwyaf priodol ar gyfer eich amgueddfa chi. Mae ffynonellau canllawiau mwy penodol ar gael yn Atodiad Un.

Mae rhai gwahaniaethau sylweddol rhwng y gyfraith yng Nghymru a Lloegr, a chyfraith yr Alban, a rhai mân wahaniaethau rhwng Gogledd Iwerddon – mae'r canllawiau yn adlewyrchu'r rhain i'r graddau y bo hynny'n bosibl.

Lle'r ydym yn defnyddio'r gair 'rhaid' yn y ddogfen hon, mae'n golygu'r gofyniad cyfreithiol neu reoleiddiol sy'n effeithio ar y corff llywodraethu neu'r sefydliad. Rhaid i sefydliadau gydymffurfio â'r gofynion hyn.

Rydym yn defnyddio 'dylid/dylech' ar gyfer eitemau a ystyriwn yn arfer dda, ond lle nad oes gofynion cyfreithiol penodol. Dylai endidau ddilyn y canllawiau arferion da oni bai bod rheswm da i beidio â gwneud hynny.

2 Trefn y canllawiau

Mae'r canllawiau wedi'u rhannu'n bedair adran:

1. Trosolwg
2. Sail y Safon Achredu
3. Newid sylweddol
4. Canllawiau ar ddulliau cyfansoddiadol cymwys ac anghymwys

O ganlyniad i'r ystod o opsiynau cyfansoddiadol, a'u hamrywiadau, sydd bellach ar gael, mae'r canllawiau yn amrywiol dros ben. Y nod yw tynnu sylw at nodweddion pob math o gyfansoddiad a'r materion perthnasol sy'n ymwneud â Gofyniad Achredu 1.2.

3 Cefndir

Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â'r gofyniad am "Gyfansoddiad derbyniol ar gyfer y corff llywodraethu" yn y Safon Achredu (rhifyn 2018):

'Rhaid i'r amgueddfa fod yn sefydliad tymor hir sy'n bodoli er lles y cyhoedd ac i ddiogelu casgliadau. Rhaid bod ganddi gyfansoddiad priodol a derbyniol ar gyfer y corff llywodraethu.'

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno'r tair elfen graidd sy'n cael eu hystyried yn ganolog i amgueddfeydd achrededig; hirhoedledd, budd cyhoeddus a gwarchod asedau. Pan gafodd y Cynllun Cofrestru Amgueddfeydd ei gyflwyno ym 1988, dim ond hyn a hyn o fathau o gyfansoddiad oedd ar gael, ac fel arfer, perchnogion yr amgueddfeydd oedd yn eu cynnal.

Mae cyd-destun amgueddfeydd wedi newid yn aruthrol dros y deng mlynedd diwethaf; mae ffurfiau cyfansoddiadol newydd a mwy hyblyg ar gael, llai o gyllid cyhoeddus, mae amgueddfeydd a gwasanaethau diwylliannol yn deillio o'r sector cyhoeddus, a threfniadau gweithredol wedi mynd yn fwyfwy cymhleth. Mae hyd at ddeg math o gyfansoddiad posib ar gael erbyn hyn, a gall trefniadau llywodraethu gynnwys cyfuniad o dri endid gwahanol, a nod y canllawiau hyn yw adlewyrchu'r newidiadau hynny.

4 Diben

Nod y canllawiau hyn yw:

- Darparu'r sail resymegol lle mae trefniadau cyfansoddiadol yn dderbyniol ar gyfer amgueddfeydd achrededig. Mae hyn yn seiliedig ar fframwaith rhyngwladol y cytunwyd arno ar gyfer moeseg amgueddfeydd, ac yn dilyn athrawiaeth gyfreithiol ymddiriedaeth gyhoeddus
- Esbonio'r ffurfiau cyfreithiol sydd ar gael i amgueddfeydd sy'n gallu darparu'r lefelau angenrheidiol o ddiogelwch i asedau a helpu i reoli amgueddfeydd yn foesegol, a'r rhai sy'n debygol o fod yn anghymwys
- Nodi'r materion allweddol ar gyfer asesu ceisiadau achredu, a sut maen nhw'n cyd-fynd â'r Safon

5 Cwmpas

Mae cwmpas y canllawiau hyn ar gyfer gwledydd y DU yn bennaf – Cymru, Yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr. Mae hefyd yn cwmpasu tiriogaethau dibynnol y goron Ynys Manaw, Jersey a Guernsey. Darperir gwybodaeth am y gwahaniaethau sylweddol rhwng y fframweithiau rheoleiddiol lle mae'r rhain yn bodoli.

Cydnabyddir y bydd y wybodaeth sy'n sail i'r canllawiau yn newid, er enghraifft mae Comisiwn y Gyfraith wrthi'n paratoi Bil drafft sy'n mynd i'r afael â'r materion technegol sy'n deillio o'r adolygiad o Ddeddf Elusennau 2006 a dyw'r Sefydliad Elusennol Corfforedig ddim wedi dod i rym yng Ngogledd Iwerddon eto. Bydd angen adolygu'r canllawiau yn rheolaidd. Dyma'r canllawiau cyfredol ym mis Tachwedd 2018.

6 Sail y Safon Achredu

Mae'r Safon Achredu yn seiliedig ar ddiffiniad Cymdeithas yr Amgueddfeydd o amgueddfa ym 1998:

'Museums enable people to explore collections for inspiration, learning and enjoyment. They are institutions that collect, safeguard and make accessible artefacts and specimens, which they hold in trust for society'

Mae'r Safon yn cefnogi pwysigrwydd amgueddfeydd fel llefydd sy'n cadw eu casgliadau a'u hasedau 'er budd y cyhoedd'. Mae'n deillio o Godau Moeseg cydnabyddedig rhyngwladol a'r DU:

- Mae Amgueddfeydd sy'n cynnal casgliadau yn eu cadw mewn ymddiriedolaeth er budd cymdeithas a'i datblygiad (Cod Moeseg Cyngor Rhyngwladol yr Amgueddfeydd, Egwyddor 2)
- Mae amgueddfeydd yn sefydliadau sy'n cyflwyno casgliadau ar gyfer y cyhoedd er mwyn cadw a throsglwyddo gwybodaeth, diwylliant a hanes ar gyfer cenedlaethau'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol. Mae hyn yn golygu bod gan amgueddfeydd gyfrifoldebau pwysig o ran ennyn ymddiriedaeth eu cynulleidfaoedd, cymunedau lleol, cyfranwyr, cymunedau ffynhonnell, sefydliadau partner, noddwyr a chyllidwyr. (Cod Moeseg Cymdeithas yr Amgueddfeydd)

Mae'r cysyniad o 'ymddiriedolaeth y cyhoedd' yn amwys a heb ei ddiffinio yn y gyfraith. At ddiben y canllawiau hyn, mae wedi'i grynhoi yn yr egwyddorion canlynol (addaswyd o'r Athrawiaeth Ymddiriedolaeth y Cyhoedd):

- Mae adnoddau diwylliannol sydd o'r fath bwys sylfaenol i les cymdeithasol fel:
 - o Y dylai'r cyhoedd gael mynediad sicr i'r adnoddau hynny
 - o Y dylai penderfyniadau sy'n cael eu gwneud am yr adnoddau hyn fod yn destun atebolrwydd cyhoeddus, ac

- o Dylai adlewyrchu'r 'cydraddoldeb rhyng-genhedlaeth' sy'n dangos parch at waddol cenedlaethau'r gorffennol, wedi'i gydbwyso â'r angen i ddiwallu anghenion y presennol, gyda'r nod o basio'r gwaddol a'r etifeddiaeth honno, mewn cyflwr da, ymlaen i'r genhedlaeth nesaf.
- Dylai'r cyhoedd allu ymddiried yng ngweithgareddau cyfansoddiadol a gweithredol yr amgueddfa sy'n sicrhau'r uchod.

Cyngor Rhyngwladol yr Amgueddfeydd (ICOM) sy'n darparu'r canllawiau mwyaf clir a chroyw yn nhermau budd ac ymddiriedolaeth y cyhoedd:

Museums that maintain collections hold them in trust for the benefit of society and its development.... Inherent in this public trust is the notion of stewardship that includes rightful ownership, permanence, documentation, accessibility and responsible disposal.... Museum collections are held in public trust and may not be treated as a realizable asset.

Rydym yn creu'r canllawiau hyn mewn cyfnod pa fo hyder y cyhoedd mewn sefydliadau craidd wedi dirywio, ac er bod hyn yn bennaf wir am lywodraethau cenedlaethol a lleol, banciau a chwmnïau mawrion, mae hefyd wedi digwydd yn y sector dielw. Mae adolygiad diweddaraf y Comisiwn Elusennau (2016) yn dangos bod gan bobl lai o hyder yn y sector elusennol hefyd:

Public trust in charities has fallen lower than it has been since this study began in 2005 and the public are highly critical of both specific, individual charities and trends within the sector as a whole.

(Charity Commission (2016) Public Trust and Confidence in Charities: 8)

Mae canfyddiadau ehangach yr adroddiad yn dangos bod y cyhoedd yn chwilio am dryloywder, atebolrwydd ac effaith gan ei sefydliadau elusennol.

Er mwyn ennill achrediad, bydd angen i amgueddfa ddangos:

- Bod ei threfniadau cyfansoddiadol yn diogelu budd y cyhoedd gan sicrhau nad oes gan unrhyw unigolyn reolaeth lwyr dros y modd mae'r amgueddfa'n cael ei rhedeg
- Bod ganddi gorff llywodraethu (grŵp o unigolion digyswllt, neu gorfforaeth) sy'n rheoli a llywio ei strategaeth, ei gweithrediadau a'i gweithgareddau'n briodol
- Bod y corff llywodraethu wedi'i gyfansoddi'n ffurfiol dan ddogfen lywodraethu a bod y ddogfen honno'n darparu ar gyfer dal asedau
- Bod sail statudol i'w gweithgareddau fel amgueddfa neu fod pwerau penodol i ddarparu neu weithredu amgueddfa yn y ddogfen lywodraethu
- Bod yr amgueddfa yn darparu budd i'r cyhoedd, a bod rhaid i unrhyw fudd ariannol i unrhyw unigolyn sy'n ymwneud â chorff llywodraethu fod yn gyfan gwbl o ganlyniad i waith yr amgueddfa

- Nad yw'n gallu dosbarthu ei hasedau na'i helw er budd preifat fel dididendau neu fel arall, a bod unrhyw incwm a dderbynnir yn cael ei ddefnyddio'n bennaf i hyrwyddo dibenion sefydlu'r amgueddfa yn y lle cyntaf
- Bod gan yr endid y pwerau, pan gaiff ei ddiddymu, i drosglwyddo unrhyw asedau o'i eiddo (yn enwedig unrhyw asedau treftadaeth) i gorff arall sy'n arddel yr un dibenion, neu rai tebyg, sy'n gallu bodloni'r egwyddorion a'r amodau uchod
- Ei bod yn destun rheoliadau statudol neu broses farnwrol wrth drin busnes a chyflawni unrhyw ymddiriedolaethau arbennig

Mae tri math o drefniant cyfansoddiadol yn debygol o fodloni'r holl ofynion hyn:

- Endidau sy'n rhan o ddiffiniadau statudol o 'elusen' yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr
- Endidau sydd wedi'u diffinio'n fentrau cymdeithasol sy'n destun rheoliadau statudol (Swyddfa Rheoleiddiwr Cwmnïau Buddiant Cymunedol, neu'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol)
- Asedau sydd yn nwylo llywodraeth genedlaethol neu leol a/neu eu hasiantau, neu gyrff cyhoeddus eraill, a ddefnyddir yn unig at ddefnydd, addysg a mwynhad y cyhoedd, yn hytrach na'u dal fel eiddo corfforaethol y Wladwriaeth, yr awdurdod cyhoeddus neu asiantaeth y llywodraeth, neu er budd preifat.

Beth bynnag fo'r trefniant cyfansoddiadol, disgwylir y bydd unrhyw gasgliadau ac asedau yn cael eu hystyried yn asedau treftadaeth yn unol â diffiniad Safon Adrodd Ariannol 30 'Asedau Treftadaeth':

all heritage assets that are held and maintained by an entity principally for their contribution to knowledge and culture. Heritage assets can have historical, artistic, scientific, geophysical or environmental qualities.

Materion allweddol wrth benderfynu ar Statws Achredu

Bydd y broses achredu yn rhoi ystyriaeth arbennig i'r canlynol:

- Perchnogaeth a gwarchod casgliadau ac asedau
- Natur a statws y ddogfen lywodraethu
- Rheolaeth o'r sefydliad
- Budd cyhoeddus

Casgliadau

Mae eiddo (a all gynnwys adeiladau, casgliadau ac eiddo deallusol, er nad yn gyfyngedig i hynny) sydd yn nwylo sefydliadau elusennol ac ymddiriedolaeth gyhoeddus, ar gael ar ddwy ffurf:

- Eiddo a gedwir mewn ymddiriedolaeth, sy'n cael ei ddal at ddibenion bodolaeth y sefydliad
- Eiddo corfforaethol, sy'n cael ei gadw at ddibenion cyffredinol y sefydliad

Mae'n bwysig bod yr amgueddfa yn cofnodi'r gwahaniaethau hyn yn briodol oherwydd gallai'r sefydliad ymdrin fel y gwêl yn dda ag eiddo corfforaethol. Byddai defnyddio safon rheoli casgliadau Spectrum UK yn helpu i fodloni'r gofyniad hwn.

Yn y rhan fwyaf o achosion, yr amgueddfa ei hun sy'n berchen ar yr eiddo, ond gall trefniadau eraill fodoli hefyd:

- Gall cyfranwyr gadw buddiant perchnogol yn eu rhoddion, a fyddai'n caniatáu iddyn nhw adennill eu heiddo dan amgylchiadau penodol fel methiant i ddefnyddio'r asedau at y dibenion y bwriadwyd hwy ar eu cyfer neu fethiant y sefydliad (yn unol ag adran 17(3) Deddf Elusennau 2006 yn achos sefydliadau elusennol)
- Gellir benthyca neu logi rhai mathau o eiddo am gyfnod estynedig o amser
- Gallai'r eiddo fod yn destun amodau a thelerau sy'n eu cyflwyno fel ymddiriedolaethau ar wahân, h.y. mae eu defnydd wedi'i gyfyngu i'w dibenion gwreiddiol, neu efallai eu bod yn nwylo is-gwmni neu ar wahân i'r amgueddfa
- Gallant fod yn waddol parhaol neu'n rhan o waddol parhaol, os felly (os byddant wedi'u cyfuno), byddant yn cael eu cadw fel ymddiriedolaeth anghorfforedig ar wahân gyda'r amgueddfa fel yr unig ymddiriedolwr

Mewn rhai achosion, mae amgueddfeydd yn cadw eu casgliadau mewn lle cyfansoddiadol ar wahân i endid y brif amgueddfa. Mae gan y dull hwn ei gryfderau a'i wendidau, a dylech gael cyngor arbenigol er mwyn penderfynu ar y ffordd fwyaf priodol o warchod casgliadau ac asedau eraill.

Dogfen lywodraethu

Mae'r ddogfen lywodraethu yn cyfeirio at ddogfen gyfreithiol sy'n nodi amcanion y sefydliad ac, fel arfer, sut mae'n cael ei weinyddu. Gall fod yn weithred ymddiriedolaeth, cyfansoddiad, rheolau, memorandwm ac erthyglau cymdeithasiad, trosglwyddeb, ewyllys, Siarter Brenhinol, cynllun y Comisiwn Elusennau neu ddogfen ffurfiol arall.

Sefydliadau elusennol

Rhaid i'r ddogfen lywodraethu, yn ei chymal gwrthrychol, wneud naill un o'r canlynol:

1. Cyfeirio'n benodol at brif ddiben y sefydliad fel rhywle sy'n darparu amgueddfa, oriel neu gyfleuster tebyg. Neu, rhestru darpariaethau'r amgueddfa neu'r oriel fel pŵer penodol, yn achos sefydliadau uwchgwmni mwy, neu
2. Cyfeirio'n benodol at ddarparu amgueddfa, oriel neu gyfleuster tebyg o fewn prif ddibenion ehangach. Rhaid i hyn fod yn rhesymol yng nghydestun prif ddiben y sefydliad, ac o fewn pwerau'r corff llywodraethu y gellir eu cymryd – lle nad oes unrhyw gyfeiriad perthnasol arall ato – i fod yn bŵer cyffredinol i wneud y pethau hynny sy'n gyfreithlon fel rhan o brif ddiben yr elusen.

Mewn rhai achosion, mae elusennau cenedlaethol â phrif ddiben nad yw'n ymwneud ag amgueddfa, wedi sefydlu is-gwmni elusennol, er enghraifft 'ymddiriedolaeth dreftadaeth' i lywodraethu'r amgueddfa. Yn yr achos hwn, bydd angen dangos bod gan yr is-gwmni y grym i ddal a/neu fod yn berchen ar gasgliad a gweithredu fel amgueddfa.

Bydd cofrestru'r endid gyda rheoleiddiwr priodol yn ddigon i ddangos bod prawf ymddiriedolaeth gyhoeddus ar waith.

Dylai'r cyfansoddiad hefyd gynnwys y manylion canlynol:

- Pwerau buddsoddiad yr Ymddiriedolwyr
- Taliadau cydnabyddiaeth ymddiriedolwyr
- Gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â gwrthdaro buddiannau a buddiant personol ymddiriedolwyr
- Cyfyngiad ar drosglwyddo'r asedau sy'n weddill i elusen arall â diben tebyg, ar ôl dirwyn i ben
- Cymal sy'n atal unrhyw un rhag diwygio'r cymalau craidd hyn a newidiadau i'r prif ddiben (amcanion) heb ganiatâd y rheoleiddwyr, neu un a fyddai wedi peri i'r amgueddfa beidio â bod yn elusen yn ôl y gyfraith mwyach.

Dylai'r ddogfen lywodraethu gynnwys y canlynol o leiaf:

- Maes buddiant yr amgueddfa
- Sut fydd yr elusen yn cyflawni ei hamcanion a'i hystod o weithgareddau
- Nifer yr ymddiriedolwyr a phwy all ac na all fod yn gymwys fel ymddiriedolwyr
- Sut mae'r ymddiriedwyr yn cynnal yr endid a'i brosesau a'i weithdrefnau
- Yr awdurdod i amrywio trefniadau gweinyddol
- Y pŵer i ddirwyn yr endid i ben neu uno'r endid a throsglwyddo'r asedau (ar ôl bodloni'r holl rwymedigaethau) i elusen ag amcanion tebyg neu endid penodol sy'n gallu dangos ymddiriedaeth y cyhoedd.

Rydym yn annog sefydliadau i adolygu eu dogfennau llywodraethu yn rheolaidd a'u diweddarau fel eu bod yn bodloni'r meini prawf hynny ac yn cadw at y ddeddfwriaeth berthnasol.

Rhaid i elusennau a freiniwyd mewn awdurdod cyhoeddus neu awdurdodau cyhoeddus eraill:

- Bod wedi cofrestru â'r rheoleiddiwr priodol (os nad ydynt wedi'u heithrio)
- Bod wedi cyflwyno trefniadau i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud er lles yr elusen. Gellir sicrhau hyn trwy benodi pwyllgor arbennig i oruchwylio penderfyniadau yn achos elusen neu benodi crafwr annibynnol
- Paratoi adroddiad a chyfrifon blynyddol yn fformat gofynnol y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir: Cyfrifyddu gan Elusennau (SORP)

Endidau cyfansoddiadol eraill

Dylai endidau di-elusennol ddarparu copïau o unrhyw Gyfansoddiadau, Rheolau neu Gylchoedd Cyfeirio perthnasol sydd ar waith i arolygu a goruchwylio asedau a gweithgareddau'r amgueddfeydd. Rhaid i endidau gydymffurfio â gofynion y rheoleiddiwr perthnasol.

Rheolaeth

Bydd unrhyw drefniant cyfansoddiadol ond cystal â'r rhai sy'n ei reoli, felly mae angen ystyried llawer o faterion llywodraethu ehangach er mwyn achredu:

- Rheolaeth y sefydliad
- Budd personol
- Gwrthdaro buddiannau

Beth bynnag yw'r endid cyfansoddiadol, disgwylir i'r corff llywodraethu sicrhau bod yr amgueddfa yn cyflwyno budd cyhoeddus ac yn gweithredu er lles y sefydliad. Mae hyn wedi'i ymwreiddio yn nhrefn llywodraethu elusennau ac yn rhan o Egwyddorion Bywyd Cyhoeddus Nolan (gweler y ddolen gyswllt yn Atodiad Un am fanylion). Os yw corff llywodraethu yn rhan o endid mwy (e.e. prifysgol), disgwylir y bydd awdurdod wedi'i ddirprwyo'n glir ac y bydd prosesau adrodd a phenderfyniadau mewnol yn caniatáu i'r corff llywodraethu gyflawni ei gyfrifoldebau yn ddirwystr.

Rhaid i system lywodraethu amgueddfa achrededig fod yn glir ac atebol gyda pholisïau a gweithdrefnau priodol ar gyfer rheoli gwrthdaro buddiannau.

Ni chaiff unrhyw unigolyn elwa'n bersonol ar fod yn aelod o gorff llywodraethu amgueddfa, yn enwedig os yw hyn yn peri risg o wrthdaro o ran cyflwyno budd cyhoeddus neu asedau lleoedd, gan gynnwys casgliadau.

Mae bosib, dan rai amgylchiadau, i amgueddfa gael ei dylanwadu neu ei rheoli'n ormodol gan endid arall; byddai arferion o'r fath yn golygu nad yw'r amgueddfa yn gymwys am achrediad. Gallai'r rheoleiddiwr priodol herio'r amgueddfeydd hyn hefyd.

Budd cyhoeddus

Mae angen i amgueddfa achrededig brofi ei bod yn darparu budd i'r cyhoedd. Mae'r rheoleiddwyr priodol (fel y Comisiwn Elusennau) yn gweithio i feini prawf wedi'u diffinio gan ddeddfwriaeth berthnasol (Atodiad Dau). O safbwynt achrediad, disgwylir i chi gynnig mynediad ac ennyn diddordeb y cyhoedd yn eich asedau a'ch casgliadau.

8

Endidau anghymwys

Dyma enghreifftiau o endidau anghymwys:

- Nid yw'r hawl i fod yn berchen ar gasgliad neu asedau eraill wedi'i bennu'n llawn neu'n ddigon clir
- Nid yw'r dull o ddiogelu casgliadau neu asedau'r amgueddfa yn ddigon cadarn
- Mae unigolion sy'n gysylltiedig â rhedeg yr amgueddfa yn gallu cael gormod o fudd personol naill ai trwy elw neu sylweddoli gwerth asedau, ac yn rhoi blaenoriaeth i hyn dros gyflwyno budd i'r cyhoedd (h.y. cwmni cyfyngedig preifat sy'n gorfod sicrhau'r budd mwyaf i gyfranddaliadau a fyddai'n diystyru'r budd cyhoeddus pe bai'n gweithredu fel amgueddfa)
- Mae cyrff eraill yn amharu neu'n dylanwadu'n ormodol ar gyrff eraill, a allai achosi pryderon am dryloywder rheoli'r amgueddfa, gan fygwth asedau neu danseilio ymddiriedaeth y cyhoedd

Does dim sicrwydd y bydd unrhyw drefniant cyfansoddiadol yn gwbl rydd o beryglon; gall dulliau rheoli gwael neu ddioglyddor ddylanwadu ar unrhyw endid.

Fodd bynnag, mae sawl math o gyfansoddiad sy'n annhebygol o fodloni gofynion '1.2: Cyfansoddiad Derbyniol ar gyfer y Corff Llywodraethu':

- Unig fasnachwr
- Partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig
- Cwmni cyfyngedig trwy gyfranddaliadau wedi'i lywio gan elw
- Cymdeithasau anghorfforedig (os nad yw'n Ymddiriedolaeth)
- Cymdeithasau cydweithredol (Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus)
- Cyfrwng at ddibenion arbennig
- Amgueddfeydd preifat

Cydnabyddir bod llawer o amgueddfeydd a sefydliadau treftadaeth yn cychwyn fel Cymdeithasau Anghorfforedig yn seiliedig ar frwdfrydedd unigolyn neu griw brwd o wirfoddolwyr. Wrth i'r sefydliad ddatblygu a chaffael asedau a chasgliadau, dylid adolygu'r rhain gan mai cyfrifoldeb unigol y rhai sy'n gysylltiedig yw'r asedau a'r rhwymedigaethau hyn wedyn ac nid ydynt wedi'u diogelu gan endid cyfansoddiadol. Mae sawl ffordd wahanol o wneud hyn, ac awgrymir eich bod chi'n cael cyngor cyfreithiol. Os dewisir y llwybr ymgorffori'n llawn, mae angen creu endid cyfreithiol newydd ac mae sawl cam i'r broses hon:

1. Pŵer i drosglwyddo: cadarnhad bod gan y Gymdeithas Anghorfforedig y grym i drosglwyddo ei hasedau
2. Ymgorffori'r endid cyfansoddiadol newydd
3. Cofrestru'r cwmni elusennol newydd (neu endid arall) gyda'r rheoleiddiwr priodol, fel y Comisiwn Elusennau
4. Creu'r cytundeb cyfreithiol i drosglwyddo'r asedau ac ymgymeriadau'r elusen wreiddiol i'r elusen gorfforaethol newydd
5. Cwblhau'r cytundeb trosglwyddo
6. Tynnu'r elusen wreiddiol o Gofrestr y Comisiwn Elusennau

Mae'n bwysig cymryd y camau hyn cyn gynted â phosib er mwyn osgoi problemau yn y dyfodol o ran perchnogaeth a'r pwerau i ddal casgliad.

O gofio'r ystod o drefniadau cyfansoddiadol sydd ar gael, bydd ceisiadau achredu yn cael eu hystyried fesul cais.

9

Newid sylweddol

Rydym yn deall bod cyd-destun gweithredu amgueddfeydd yn newid yn gyflym ac y gall trefniadau cyfansoddiadol orfod addasu i'r newidiadau hynny. Fel amgueddfa achrededig neu un sy'n ceisio achrediad, mae'n bwysig eich bod chi'n rhoi gwybod i'r sefydliadau asesu perthnasol (Llywodraeth Cymru, Museum Development, Arts Council England, Museums Galleries Scotland neu Northern Ireland Museums Council) am unrhyw newidiadau sylweddol nawr neu sydd ar y gweill. Gallai'r rhain gynnwys y canlynol, er nad yw hon yn rhestr gaeth:

- Uno neu drosglwyddo
- Creu consortiwm â chyfansoddiad ffurfiol fel Cyfrwng at Ddibenion Arbennig
- Creu Cwmni Cydfuddiannol y Sector Cyhoeddus neu newid arall o awdurdod cyhoeddus i statws annibynnol
- Pryderon ariannol difrifol a allai arwain at berygl ansolfedd
- Dirwyn y sefydliad cyfredol i ben a throsglwyddo'r asedau i gorff newydd
- Newid statws o Gwmni Elusennol i Sefydliad Elusennol Corfforedig
- Newidiadau sylweddol i amcanion cyfansoddiadol, diben neu ddogfennau llywodraethu

Camau i'w cymryd wrth ddirwyn i ben neu gau – Cwmni Elusennol

Mae cael gwared ar asedau elusen wrth ddirwyn sefydliad elusennol i ben yn destun athrawiaeth 'cy-près'. Mae athrawiaeth cy-près yn golygu, lle mae ymddiriedolaeth wedi methu oherwydd bod ei ddibenion naill ai'n amhosib neu'n anodd eu cyflawni, y gall yr Uchel Lys Cyfiawnder neu Gomisiwn Elusennau wneud gorchymyn sy'n ailgyfeirio asedau'r ymddiriedolaeth i'r diben agosaf posib. Dylid amlinellu hyn yn y ddogfen lywodraethu, nad yw fel arfer yn cyfeirio at yr elusen sy'n derbyn asedau ac yn disgwyl i Ymddiriedolwyr yr elusen wreiddiol ddatrys y mater. Bydd y rheoleiddiwr priodol yn rhoi ei ganiatâd a gall ddatrys y mater os na all yr ymddiriedolwyr ddelio â'r mater.

Lle mae peryglon difrifol i elusen neu ei hasedau, gallai'r Comisiwn Elusennau hefyd ddweud wrth elusennau neu drydydd partion (e.e. banciau) wneud pethau penodol neu gymryd camau eraill i warchod elusen neu ei hasedau.

Os nad yw endid amgueddfa yn sefydliad elusennol ond yn cyflawni budd cyhoeddus a mandad ymddiriedolaeth gyhoeddus, yna disgwylir y bydd egwyddor cy-près hefyd yn berthnasol.

Yn dibynnu ar faint o newid sefydliadol sydd a natur y perygl i asedau ac ymddiriedolaeth gyhoeddus, efallai y bydd y sefydliad asesu perthnasol yn gofyn i'r endid newydd wneud cais arall am achrediad. Bydd angen i'r endid newydd ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion cyfansoddiadol ac ni fydd yr achrediad yn trosglwyddo'n awtomatig o un amgueddfa i'r llall.

10 Achredu Amgueddfeydd: Opsiynau cyfansoddiadol cymwys ac anghymwys

Os ydych chi'n meddwl sefydlu endid newydd neu newid eich statws cyfansoddiadol cyfredol, dylech ofyn am gyngor priodol.

Mae'r tabl canlynol yn cyflwyno'r sefydliadau hynny sy'n debygol o fod yn gymwys ac yn anghymwys am achrediad.

Cymwys	• Cwmni Elusennol Cyfyngedig trwy Warant (CCLG)
	• Sefydliad Elusennol Corfforedig (CIO) CIO yr Alban (SCIO)
	• Cwmni Cydfuddiannol y Sector Cyhoeddus (os yw'n CIO neu CCLG)
	• Amgueddfeydd Awdurdod Lleol (gall fod yn brif awdurdod neu'n gyngor tref, cymuned (Cymru) neu blwyf lle mae'r awdurdod wedi'i ddirprwyo)
	• Trefniadau Rheoli ar y Cyd
	• Sefydliadau dan gyfansoddiad Siarter Frenhinol
	• Amgueddfeydd Prifysgol (sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd)
Gall fod yn gymwys: yn dibynnu ar natur cloi asedau, lefel dosbarthu'r elw, lefel budd/ ymddiriedolaeth gyhoeddus ac ati.	• Ymddiriedolaeth Elusennol
	• Cymdeithasau er Budd y Gymuned (Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus gynt) – 'BenComs'
	• Cwmnïau Buddiant Cymunedol Cyfyngedig trwy Warant (CICLG)
	• Cymdeithas Anghorfforedig (Ymddiriedolaeth Elusennol)
Anghymwys	• Cwmnïau Cydfuddiannol Gwasanaeth Cyhoeddus (os ydynt yn CIC neu'n BenCom)
	• Cymdeithas Anghorfforedig (Sefydliad Gwirfoddol/ Cymunedol)
	• Cwmni preifat a Chyhoeddus Cyfyngedig trwy Gyfranddaliadau
	• Partneriaeth a Phartneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig
	• Cwmnïau Buddiant Cymunedol Cyfyngedig trwy Gyfranddaliadau
	• Cymdeithasau Cydweithredol
	• Cyfryngau at Ddibenion Arbennig a strwythurau tymor byr eraill

Atodiadau

Atodiad Un: Canllawiau ac Adnoddau

Ffynhonnell	Gwybodaeth	Dolen gyswllt
Comisiwn Elusennau	Canllawiau amrywiol ar reoleiddio a llywodraethu elusennau yng Nghymru a Lloegr	Charity Commission Guidance
Office of the Scottish Charity Regulator	Canllawiau amrywiol ar reoleiddio a llywodraethu elusennau yn yr Alban	OSCR guidance
Charity Commission for Northern Ireland	Canllawiau amrywiol ar reoleiddio a llywodraethu elusennau yng Ngogledd Iwerddon	CCNI Guidance
UnLtd	Penderfynu ar y strwythur cyfreithiol cywir	Legal structures
Resource Centre	Strwythurau cyfreithiol	Legal structures
Co-operatives UK	Canllawiau ar gwmnïau cydweithredol	CoopUK Guidance
National Council for Voluntary Organisations	Cymorth sylweddol i sefydliadau dielw	Charity law and guidance
Scottish Council for Voluntary Organisations	Cymorth sylweddol i sefydliadau dielw yn yr Alban	Setting up a charity
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru	Cymorth i'r trydydd sector yng Nghymru	Elusennau sydd newydd gofrestru
ACEVO – charity leaders network	Cymorth i arweinwyr elusennau	Governance
Collections Trust	Safon casgliadau'r DU	Spectrum UK
Association of Independent Museums	Adnoddau amrywiol ar gyfer amgueddfeydd annibynnol	Resources
Gov.UK	Saith egwyddor bywyd cyhoeddus	The Nolan Principles

Atodiadau

Atodiad Dau: Diffiniadau cyfreithiol o Fudd Cyhoeddus

Cymru a Lloegr: Charity Act 2011 Public Benefit

Meaning of “charitable purpose”

For the purposes of the law of England and Wales, a charitable purpose is a purpose which –

1. (a) falls within section 3(1), and
2. (b) is for the public benefit (see section 4).

Any reference in any enactment or document (in whatever terms) –

1. (a) to charitable purposes, or
2. (b) to institutions having purposes that are charitable under the law relating to charities in England and Wales, is to be read in accordance with subsection (1).

Subsection (2) does not apply where the context otherwise requires.

This section is subject to section 11 (which makes special provision for Chapter 2 of this Part onwards).

Descriptions of purposes

A purpose falls within this subsection if it falls within any of the following descriptions of purposes –

- (a) the prevention or relief of poverty;
- (b) the advancement of education;
- (c) the advancement of religion;
- (d) the advancement of health or the saving of lives;
- (e) the advancement of citizenship or community development;
- (f) the advancement of the arts, culture, heritage or science;
- (g) the advancement of amateur sport;
- (h) the advancement of human rights, conflict resolution or reconciliation or the promotion of religious or racial harmony or equality and diversity;
- (i) the advancement of environmental protection or improvement;
- (j) the relief of those in need because of youth, age, ill-health, disability, financial hardship or other disadvantage;
- (k) the advancement of animal welfare;

- (l) the promotion of the efficiency of the armed forces of the Crown or of the efficiency of the police, fire and rescue services or ambulance services;
- (m) any other purposes –
 1. (i) that are not within paragraphs (a) to (l) but are recognised as charitable purposes by virtue of section 5 (recreational and similar trusts, etc.) or under the old law,
 2. (ii) that may reasonably be regarded as analogous to, or within the spirit of, any purposes falling within any of paragraphs (a) to (l) or sub-paragraph (i), or
 3. (iii) that may reasonably be regarded as analogous to, or within the spirit of, any purposes which have been recognised, under the law relating to charities in England and Wales, as falling within sub-paragraph (ii) or this sub-paragraph.

Charities Act (Northern Ireland) 2008

Meaning of “charity”

- 1** – (1) For the purposes of the law of Northern Ireland, “charity” means an institution which –
- (a) is established for charitable purposes only, and
 - (b) falls to be subject to the control of the Court in the exercise of its jurisdiction with respect to charities.
- (2) The definition of “charity” in subsection (1) does not apply for the purposes of a statutory provision if a different definition of that term applies for those purposes by virtue of that or any other statutory provision.
- (3) A charity shall be deemed for the purposes of this Act to have a permanent endowment unless all property held for the purposes of the charity may be expended for those purposes without distinction between capital and income, and in this Act “permanent endowment” means, in relation to any charity, property held subject to a restriction on its being expended for the purposes of the charity.
- (4) The Commission may direct that for all or any of the purposes of this Act an institution established for any special purposes of or in connection with a charity (being charitable purposes) shall be treated as forming part of that charity or as forming a distinct charity.
- (5) The Commission may direct that for all or any of the purposes of this Act two or more charities having the same charity trustees shall be treated as a single charity.

Meaning of “charitable purpose”

- 2 – (1) For the purposes of the law of Northern Ireland, a charitable purpose is a purpose which—
- (a) falls within subsection (2), and
 - (b) is for the public benefit (see section 3).
- (2) A purpose falls within this subsection if it falls within any of the following descriptions of purposes—
- (a) the prevention or relief of poverty;
 - (b) the advancement of education;
 - (c) the advancement of religion;
 - (d) the advancement of health or the saving of lives;
 - (e) the advancement of citizenship or community development;
 - (f) the advancement of the arts, culture, heritage or science;
 - (g) the advancement of amateur sport;
 - (h) the advancement of human rights, conflict resolution or reconciliation or the promotion of religious or racial harmony or equality and diversity;
 - (i) the advancement of environmental protection or improvement;
 - (j) the relief of those in need by reason of youth, age, ill-health, disability, financial hardship or other disadvantage;
 - (k) the advancement of animal welfare;
 - (l) any other purposes within subsection (4).

As amended in Charities Act (2013) Northern Ireland

“The public benefit requirement

- 3 – (1) In this Act “the public benefit requirement” means the requirement in section 2(1)(b) that a purpose falling within section 2(2) must be for the public benefit if it is to be a charitable purpose.
- (2) In determining whether the public benefit requirement is satisfied in relation to any purpose falling within section 2(2), it is not to be presumed that a purpose of a particular description is for the public benefit.
- (3) In this Act any reference to the public benefit is a reference to the public benefit as that term is understood for the purposes of the law relating to charities in Northern Ireland.
- (4) Subsection (3) is subject to subsection (2).” . (2) This section shall be deemed always to have had effect.

Charities and Trustee Investment (Scotland) Act 2005

The charity test

- (1) A body meets the charity test if –
- (a) its purposes consist only of one or more of the charitable purposes, and
 - (b) it provides (or, in the case of an applicant, provides or intends to provide) public benefit in Scotland or elsewhere.
- (2) The charitable purposes are –
- (a) the prevention or relief of poverty,
 - (b) the advancement of education,
 - (c) the advancement of religion,
 - (d) the advancement of health,
 - (e) the saving of lives,
 - (f) the advancement of citizenship or community development,
 - (g) the advancement of the arts, heritage, culture or science,
 - (h) the advancement of public participation in sport,
 - (i) the provision of recreational facilities, or the organisation of recreational activities, with the object of improving the conditions of life for the persons for whom the facilities or activities are primarily intended,
 - (j) the advancement of human rights, conflict resolution or reconciliation,
 - (k) the promotion of religious or racial harmony,
 - (l) the promotion of equality and diversity,
 - (m) the advancement of environmental protection or improvement,
 - (n) the relief of those in need by reason of age, ill-health, disability, financial hardship or other disadvantage,
 - (o) the advancement of animal welfare,
 - (p) any other purpose that may reasonably be regarded as analogous to any of the preceding purposes.

- (3) In subsection (2) –
- (a) in paragraph (d), “the advancement of health” includes the prevention or relief of sickness, disease or human suffering,
 - (b) paragraph (f) includes –
 - (i) rural or urban regeneration, and
 - (ii) the promotion of civic responsibility, volunteering, the voluntary sector or the effectiveness or efficiency of charities,
 - (c) in paragraph (h), “sport” means sport which involves physical skill and exertion,
 - (d) paragraph (i) applies only in relation to recreational facilities or activities which are—
 - (i) primarily intended for persons who have need of them by reason of their age, ill-health, disability, financial hardship or other disadvantage, or
 - (ii) available to members of the public at large or to male or female members of the public at large,
 - (e) paragraph (n) includes relief given by the provision of accommodation or care, and
 - (f) for the purposes of paragraph (p), the advancement of any philosophical belief (whether or not involving belief in a god) is analogous to the purpose set out in paragraph (c).
- (4) A body which falls within paragraphs (a) and (b) of subsection (1) does not, despite that subsection, meet the charity test if –
- (a) its constitution allows it to distribute or otherwise apply any of its property (on being wound up or at any other time) for a purpose which is not a charitable purpose,
 - (b) its constitution expressly permits the Scottish Ministers or a Minister of the Crown to direct or otherwise control its activities, or
 - (c) it is, or one of its purposes is to advance, a political party.
- (5) The Scottish Ministers may by order disapply either or both of paragraphs (a) and (b) of subsection (4) in relation to any body or type of body specified in the order.

TirioGaethau Dibynnol y Goron

Ynys Manaw

Definition

20 The Charities Registration Act 1989 requires any entity to ‘take or uses any name, style, title or description implying or otherwise pretends, that it is a charity; or holds itself out as a charity’ to be registered as a charity. To be registered the charity must have a purpose that is charitable under one of the following heads:

- relief of poverty (now defined more broadly as relief of financial hardship);
- advancement of education;
- advancement of religion;
- certain other purposes beneficial to the community.

and have a ‘substantial and genuine’ connection with the Island.

21 The education head includes museums and art galleries provided they provide public educational benefit, demonstrate recognisable standards of artistic merit, and must not be run for profit. Protection of heritage, where the public has reasonable access to the property is charitable as an ‘other purpose beneficial to the community.

Regulation

Charities are required to register with the General Registry of the Isle of Man Government. Responsibility for ensuring that charities act as the law requires rests with the Isle of Man Attorney General.

The Channel Islands

Definition

Although the laws of the Channel Island Bailiwicks (Jersey and Guernsey) allows for the creation of various charitable structures, there are no statutory definitions of ‘charity’ or ‘charitable purposes’ in either jurisdiction, though their practice is rooted in the same 17th century legislation (the Charitable Uses Act 1601) as the United Kingdom. However, the tax authorities in each States do confer tax benefits on organizations they recognise as charitable.

Regulation

There is no regulation of charities, nor is there any official register of charities, in either Bailiwick.

Atodiadau

Atodiad tri: Rhestr eirfa

Cloi asedau	Term cyffredinol a ddefnyddir i gynnwys yr holl ddarpariaethau a gynlluniwyd i sicrhau bod asedau'r Cwmni Buddiant Cymunedol (gan gynnwys unrhyw elw neu weddillion eraill a gynhyrchwyd gan ei weithgareddau) yn cael eu defnyddio er budd y gymuned
Eiddo corfforaethol	Eiddo sy'n berchen i endid er mwyn cyflawni ei fusnes bob dydd ac sydd heb ei lesteirio gan unrhyw ymddiriedolaethau na rhwystrau ar sut y dylai gyflawni pethau
Corff llywodraethu	Rhai â rheolaeth gyffredinol dros weinyddiaeth endid
Dogfen lywodraethu	Dogfen sy'n nodi dibenion y sefydliad a sut y caiff ei weinyddu
Asedau treftadaeth	Asedau â'r nodweddion hanesyddol, artistig, gwyddonol, technolegol, daearyddol neu amgylcheddol sy'n cael eu dal a'u cadw yn bennaf oherwydd eu cyfraniad i wybodaeth a diwylliant
Sefydliad corfforedig	Mae busnes corfforedig yn endid er ei fwyn ei hun. Mae hyn yn golygu ei fod yn gallu trefnu contractau, cyflogi staff, prydlesu eiddo a chael ei rwymedigaethau ac atebolrwydd ei hun
Proses farnwrol	Awdurdodaeth y llysoedd i ddarparu proses adolygu a dyfarniad cyfreithiol-rwym er mwyn rheoli gweithgareddau endid
Llythyrau breinio	Offeryn cyfreithiol ar ffurf llythyr agored gan y frenhines sy'n rhoi hawl neu statws, gan gynnwys cydsyniad i ddeddfu
Local authority	Is-gorff llywodraeth ganolog ac sydd fel arfer wedi'i reoli gan aelodau a etholwyd yn ddemocrataidd sy'n darparu gwasanaethau i bobl leol naill ai ar ran y llywodraeth ganolog neu ar ei liwt ei hun
Memorandwm ac Erthyglau Cwmni	Dogfen ysgrifenedig sy'n cyfyngu ac yn diffinio swyddogaethau a phwerau cwmni a'i reolau gweinyddu. Math o ddogfen lywodraethu.

Amcanion	Prif ddiben(ion) sefydlu'r elusen yn y lle cyntaf.
Gwaddol parhaol	Eiddo (gan gynnwys tir, adeiladau, casgliadau, arian parod a buddsoddiadau) na ellir ei wario; a all fod yn ymarferol, lle y'i defnyddir mewn modd ymarferol (e.e. adeiladau amgueddfa/oriel) neu fuddsoddiad lle defnyddir cyfalaf i greu incwm ond na ellir ei wario ei hun
Awdurdod cyhoeddus	Corff a gyfansoddwyd gan neu o dan Ddeddf Seneddol, i gyflawni swyddogaeth benodol ar ran llywodraeth ganolog
Budd cyhoeddus	Darparu er lles cymdeithasol, economaidd a diwylliannol cyffredinol, ac iechyd a diogelwch, y cyhoedd.
Corfforaeth gyhoeddus	Corff cyhoeddus sy'n cael ei reoli lled braich gan y llywodraeth, sy'n adennill 50% o'i gostau trwy weithredu ar sail gyfan gwbl fasnachol neu trwy godi tâl ar ddefnyddwyr
Cynllun	Dogfen gyfreithiol a gyflwynir gan reoleiddwyr sy'n diwygio, disodli neu ehangu ymddiriedolaethau elusen a/sut maen nhw'n cael eu rheoli
Ymddiriedolaethau arbennig	Arian neu eiddo sy'n cael eu cadw a'u gweinyddu fel ymddiriedolaeth ar wahân gan y brif elusen at ddibenion arbennig. Gallant fod yn elusennau cyfansoddol
Offeryn Statudol	Dogfen sy'n cynrychioli gweithredu'r pwerau a roddwyd i Weinidogion neu asiantaethau'r Wladwriaeth trwy gyfrwng Deddf Seneddol
Rheoliad statudol	Dull o ddiogelu'r cyhoedd rhag peryglon arferion gwael neu fynd yn groes i bolisi cyhoeddus
Gweithred Ymddiriedolaeth	Dogfen gyfreithiol sy'n creu ymddiriedaeth ac sy'n cyflwyno dibenion yr elusen a'i ddulliau gweinyddu (fel arfer). Math o ddogfen lywodraethu.
Sefydliad anghorfforedig	Mae bod yn anghorfforedig yn golygu nad oes gan sefydliad unrhyw hunaniaeth gyfreithiol ar wahân. Yr unigolion sy'n berchen ar y sefydliad ac/neu'n ei reoli sy'n gyfrifol am bob risg ac atebolrwydd.



ACHREDU
AMGUEDDFEYDD

MUSEUM
ACCREDITATION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

